

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Adolygiad dilynol o theatrau llawdriniaethau **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**

Cyhoeddwyd: Chwefror 2014

Cyfeirnod y ddogfen: 129A2014

Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Cynnwys

Operating theatres follow-up

Cefndir	4
---------	---

Canfyddiadau allweddol	4
------------------------	---

Mae theatrau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd ac mae gwelliannau wedi eu gwneud, yn enwedig o ran hyrwyddo mwy o ffocws ar ddiogelwch cleifion. Fodd bynnag, mae'r 'defnydd terfynol' yn parhau i fod yn isel ac erys rhwystrau y mae angen i theatrau a defnyddwyr theatrau fynd i'r afael â hwy ar y cyd	4
--	---

Argymhellion	5
--------------	---

Atodiadau

Sleidiau yn amlinellu canfyddiadau manwl yr adroddiad	7
---	---

Adolygiad dilynol o theatrau llawdriniaethau

Cefndir

1. Mae gwasanaethau theatrau llawdriniaethau yn rhan hanfodol o ofal cleifion. Dylai theatrau fod yn gost-efeithiol, dylent gynorthwyo i gyrraedd targedau amseroedd aros a chyfrannu at ofal o ansawdd uchel i gleifion. Mae theatrau yn ddibynol iawn ar ffactorau allanol.
Os nad yw prosesau cyn/ar ôl y llawdriniaeth yn brosesau o'r safon uchaf, bydd hyn yn cael effaith ar theatrau.
2. Dywedodd adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru yn 2011 er y bu ffocws cryf ar wella theatrau, bod y defnydd ohonynt yng Nghwm Taf yn gymharol wael. Roedd angen dull mwy cydgysylltiedig, gwell cyfathrebu rhwng staff a rheolwyr, a gwell defnydd o wybodaeth rheoli perfformiad.
3. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad dilynol o theatrau yng Nghwm Taf a phob bwrdd iechyd arall, ac eithrio Powys, mewn ymateb i geisiadau gan Bwyllgorau Archwilio, pwyllgorau gwaith ac eraill a chydnyddiaeth nad yw perfformiad theatrau mewn sawl ardal ar draws Cymru o'r safon uchaf.
4. Nod ein hadolygiad oedd ateb y cwestiwn canlynol: *A yw'r Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar ein hargymhellion blaenorol ac yn darparu gwasanaethau theatr effeithlon o ansawdd uchel?*

Canfyddiadau allweddol

5. Mae'r tabl isod yn crynhoi ein canfyddiadau allweddol. Amlinellir y canfyddiadau manwl yn y sleidiau sydd ynghlwm wrth y crynodeb hwn.

Casgliad cyffredinol: Mae theatrau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd ac mae gwelliannau wedi eu gwneud, yn enwedig o ran hyrwyddo mwy o ffocws ar ddiogelwch cleifion. Fodd bynnag, mae'r 'defnydd terfynol' yn parhau i fod yn isel ac erys rhwystrau y mae angen i theatrau a defnyddwyr theatrau fynd i'r afael â hwy ar y cyd.

Rhan 1: Mae gwella theatrau wedi parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd ac mae wedi gwneud cynnydd da mewn rhai meysydd.

Rhan 2: Mae rhai agweddau cadarnhaol iawn ar ddiwylliant diogelwch ac mae awydd o fewn theatrau i gymryd y camau nesaf o ran prif ffyrddio'r defnydd o sesiynau briffio a'r rhestr wirio.

Rhan 3: Roedd y 'defnydd terfynol' o theatrau yn gymharol isel yn 2011 ac nid yw wedi newid fawr ddim ers hynny.

Rhan 4: Mae rhwystrau'n parhau nad ydynt yn gyfyngedig i theatrau, ond sy'n gysylltiedig ag amrywiol rannau o lwybr llawfeddygol y claf.

Argymhellion

1. **Pum Cam i Lawdriniaethau Mwy Diogel:**

- a. Parhau â'r gwaith o gyflwyno'r rhestr wirio lawfeddygol newydd ac ailadrodd yr archwiliad cudd ar y ddau safle ymhen 12 mis.
- b. Gwneud penderfyniad ar bwysigrwydd sesiynau briffio ôl-restr. Os bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried hyn yn bwysig, rhaid iddynt gael eu hyrwyddo, yn enwedig gan y cyfarwyddwyr clinigol a ddylai arwain drwy esiampl.
- c. Dechrau adrodd ar gydymffurfiaeth gyda'r pum cam ochr yn ochr â metrigau effeithlonrwydd/cynhyrchiant i sicrhau adolygiad mwy cyfannol o berfformiad, ansawdd a diogelwch.

2. **Gwella profiad cleifion:**

- a. Monitro profiad cleifion llawfeddygol bob chwe mis o leiaf.
- b. Archwilio'r broses o ddilysu meddygon i asesu a yw arolygon cleifion yn ddigon annibynnol ar y meddyg dan sylw.

3. **Dadansoddiad o ddigwyddiadau:**

- a. Defnyddio cymorth ac offer gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i wella dadansoddiad o dueddiadau o ddigwyddiadau theatr a defnyddio siartiau Rheoli Proses Ystadegol.
- b. Dadansoddi'r rhesymau dros y cynnydd sylweddol mewn digwyddiadau yn ystod 2012.
- c. Pennu amcan o gynyddu adroddiadau am ddigwyddiadau a monitro'r gymhareb o ddigwyddiadau niwed-bach i'r holl ddigwyddiadau o leiaf bob chwe mis.

4. **Cynllunio rhestrau:** Adolygu'r materion effeithiolrwydd a diogelwch sy'n gysylltiedig â chynllunio rhestrau, yn enwedig yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Newid y broses i sicrhau bod staff theatr yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o sicrhau ansawdd rhestrau.

5. **Gwyliau blynyddol:** Gorfodi cydymffurfiaeth â'r rheol gwyliau chwe wythnos ar gyfer meddygon ymgynghorol. Monitro cydymffurfiaeth bob chwe mis o leiaf.

6. **Prosesau cyn llawdriniaeth:**

- a. Cyflwyno prosiect i wella'r broses rheoli perfformiad asesiadau cyn-llawdriniaeth. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wybod mwy am ei heffeithiolrwydd a'i heffaith ar ganslo llawdriniaethau.
- b. Dadansoddi yn ôl arbenigedd/llawfeddyg, lle mae cyfraddau derbyn ar ddiwrnod llawdriniaeth (DOSAs) yn isel. Gweithio gyda'r arbenigeddau/llawfeddygon hyn i ddeall/goresgyn y rhwystrau i gynyddu cyfraddau DOSAs.
- c. Rhoi sylw i'r materion yn ymwneud â phrofiad cleifion ar unedau SEAL a ddatgelwyd gan yr arolwg cleifion diweddar ac archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru.

7. Llawdriniaeth arhosiad byr:

- a. Enwebu'n ffurfiol lawfeddygon ar bob safle ysbyty i weithredu fel hyrwyddwyr ar gyfer llawdriniaeth arhosiad byr.
- b. Dylai'r hyrwyddwyr arwain prosiect gyda'r nod o gynyddu cyfraddau llawdriniaeth arhosiad byr o fewn y 12 mis nesaf.

8. Hyrwyddo effeithlonrwydd drwy greu mwy o gydberchnogaeth:

- a. Ailgyflwyno siartiau optimeiddio i roi ffocws o'r newydd ar effeithlonrwydd (heb aberthu ansawdd a diogelwch).
- b. Dylai un o'r cyfarwyddwyr clinigol arwain prosiect i gynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o ddangosfwrdd perfformiad theatrau. Dylai'r prosiect geisio deall a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy'n ymwneud â'r ffaith nad yw clinigwyr yn berchen ar y data effeithlonrwydd ar lefel clinigwyr.
- c. Rhannu'r hyn a ddysgwyd drwy gyfarwyddwyr clinigol yn adolygu data theatr ac yn arsylwi perfformiad mewn gwahanol arbenigeddau. Cynnwys y wybodaeth hon yn y broses o gynllunio swyddi, ail-ddilysu ac arfarniadau.
- d. Rhoi gwybod i staff y theatr drwy roi cyhoeddusrwydd i gofnodion cyfarfodydd Band 7 a chrynhoi'r materion allweddol yn y poster/taflenni neu mewn negeseuon e-bost.

- 9.** Ymhen chwe mis, asesu a yw swyddogaeth rheoli gwelyau uwch nyrsys theatr yn cael effaith negyddol ar eu rôl mewn theatrau.

Further information can be obtained from Stephen Lisle, Performance Specialist (Tel: 029 2032 0500/stephen.lisle@wao.gov.uk).

Atodiad 1

Sleidiau yn amlinellu prif canfyddiadau'r adroddiad



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Chwefror 2014

Gwaith dilynol ar Theatrau Llawdriniaethau

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Stephen Lisle



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cynnwys

1. Cefndir
2. Nodau'r archwiliad
3. Ein dull gweithredu
4. Prif gasgliad
5. Is-gasgliadau
6. Canfyddiadau manwl
7. Argymhellion

Gwaith dilynol ar theatrau

Sleid 2

- Mae gwasanaethau theatrau llawdriniaethau yn **rhan hanfodol o ofal cleifion**. Dylai theatrau fod yn gosteifeithiol, gan gefnogi'r nod o gyflawni targedau amser aros a dylent gyfrannu at ofal cleifion o ansawdd uchel.
- Mae theatrau yn **ddibynnol iawn ar ffactorau allanol**. Bydd prosesau cyn ac ar ôl llawdriniaethau is-optimaidd yn effeithio ar theatrau.
- Nododd adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru yn **2011**, er bod ffocws cryf wedi bod ar wella theatrau, fod y modd y'u defnyddir ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd) yn gymharol wael. Roedd angen ymagwedd fwy cydgysylltiedig, dulliau cyfathrebu gwell rhwng staff a rheolwyr, a gwell defnydd o wybodaeth am reoli perfformiad.
- Mae **Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud gwaith dilynol** ar theatrau yn y Bwrdd Iechyd ac ym mhob bwrdd iechyd arall heblaw am Powys mewn ymateb i geisiadau gan Bwyllgorau Archwilio, swyddogion gweithredol ac eraill, a chydabyddiaeth fod perfformiad mewn sawl maes yn is-optimaidd.

Nodau'r archwiliad

- Mae'r gwaith dilynol yn canolbwyntio ar dri maes:

Cynnydd ers 2011	Effeithlonrwydd theatrau	Ansawdd a diogelwch
<ul style="list-style-type: none">• Adolygiad lefel uchel yn erbyn ein hargymhellion.• Ffocws ar rwystrau i wella.	<ul style="list-style-type: none">• Mesur agweddau ar effeithlonrwydd theatrau.• Cymharu perfformiad â meincnodau.	<ul style="list-style-type: none">• Adolygu nifer fach o faterion ansawdd a diogelwch.• Ffocws ar restr wirio, briffiadau a digwyddiadau Sefydliad Iechyd y Byd.

- Prif gwestiwn astudio – **A yw'r Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar ein hargymhellion blaenorol ac yn darparu gwasanaethau theatrau effeithlon o ansawdd uchel?**

Sleid 4

Ein dull gweithredu

- Hunanasesu yn erbyn argymhellion blaenorol.
- Adolygu dogfennau.
- Dadansoddi data sydd ar gael yn genedlaethol ar ddigwyddiadau ac effeithlonrwydd.
- Casglu data: effeithlonrwydd a gwybodaeth am ansawdd ar gyfer Hydref/Tachwedd 2013.
- Arolwg staff: 241 o ymatebion (47 o llawfeddygon a 49 o anesthetyddion)
- Cyfweiliadau â 30 o aelodau staff (Aelodau'r Bwrdd, uwch reolwyr, llawfeddygon, anesthetyddion a staff theatrau)
- Trafodaethau â'r canlynol:
 - Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru;
 - Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru; ac
 - Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd.



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Prif gasgliad

Mae theatrau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd lechyd ac mae gwelliannau wedi cael eu gwneud, yn enwedig o ran canolbwyntio mwy ar ddiogelwch cleifion.

Serch hynny, mae 'defnydd terfynol' yn parhau i fod yn isel ac mae rhwystrau sy'n golygu bod angen i theatrau a defnyddwyr theatrau gydweithredu.

Is-gasgliadau

- Rhan 1:** Mae gwella theatrau wedi parhau i fod yn flaenoriaeth ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da mewn rhai meysydd.
- Rhan 2:** Mae rhai agweddau cadarnhaol iawn ar ddiwylliant diogelwch ac awydd o fewn theatrau i gymryd y camau nesaf i brif ffrydio'r defnydd o friffiadau a'r rhestr wirio.
- Rhan 3:** Roedd y 'defnydd terfynol' o theatrau yn gymharol isel yn 2011 ac nid oes fawr ddim wedi newid ers hynny.
- Rhan 4:** Nid yw'r rhwystrau sy'n weddill wedi'u cyfyngu i theatrau yn unig. Maent yn ymwneud hefyd â rhannau amrywiol o lwybr llawfeddygol y claf.

Rhan 1: Mae gwella theatrau wedi parhau i fod yn flaenoriaeth ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da mewn rhai meysydd

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ystyried theatrau fel blaenoriaeth a bu rhai agweddau da ar arweinyddiaeth a chynllunio strategol ar gyfer gwella.

- Mae gwella theatrau yn teimlo fel blaenoriaeth ar lefel uwch.
- Theatrau yw un o'r agweddau allweddol yn y Cynllun Gofal a Drefnwyd.
- Cyfranogiad uniongyrchol gan y Prif Swyddog Gweithredu.
- Diddordeb mewn theatrau o fewn y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (C&P).
- Tystiolaeth fod y gyfarwyddiaeth Anestheteg, Gofal Critigol a Theatrau (AGT) wedi bod yn llywio newid.

Dau ddyfyniad o'n cyfweiliadau

Mae theatrau yn 'adnodd drud y mae angen manteisio i'r eithaf arno.'

Mae pethau wedi symud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf... Doedd dim ysgogiad o'r blaen.

Sleid 8

Gwaith dilynol ar theatrau

Rhan 1: Mae gwella theatrau wedi parhau i fod yn flaenoriaeth ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da mewn rhai meysydd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu rhai o'n hargymellion blaenorol.

- Mae swyddi gwag ar gyfer anesthetyddion ymgynghorol wedi cael eu llenwi.
- Dulliau cydymffurfio cofnodedig gwell gyda hyfforddiant gorfodol.
- Dulliau cydymffurfio cofnodedig gwell gydag arfarniadau staff theatrau.
- Mae polisïau theatrau wedi cael eu diweddarau a sgoriodd CT 100 y cant yn asesiad 2013 o Wasanaethau Adrannau Llawdriniaethau Cronfa Risg Cymru.
- Gwnaed cynnydd o ran safoni asesiadau cyn llawdriniaethau ond mae angen gwella ymhellach.




[Ffocws ar Asesiad Cyn Llawdriniaeth (ACLI)]

- Tynnodd cyflwyniad i C&P ym mis Gorffennaf 2013 sylw at achosion cyffredin o ganslo am nad oedd y claf yn ddigon iach yn glinigol, oherwydd 'DNA' ac am nad oedd angen llawdriniaeth. Mae hyn yn awgrymu bod lle i wella prosesau cyn llawdriniaethau er mwyn sicrhau bod angen llawdriniaeth ac mae'r wybodaeth a ddarperir yn helpu cymaint â phosibl i atal DNA.
- Cydnabuwyd bod Asesiad Cyn Llawdriniaeth yn broblem ac mae wedi cael ei gynnwys ym maes AGT. Canolbwyntiwyd ar ACLI dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Cynnydd o ran safoni (ond nid yw'r gwaith hwn wedi'i gwblhau eto).
- Mae cyflwyno holiadur sgrinio yn gam da.
- Cynnwys anesthetyddion yn fwy mewn ACLI.
- Bwriedir cynnal gwaith pellach ym maes AGT dros y flwyddyn nesaf i ddeall y rhesymau dros ganslo.

Fodd bynnag:

- Barn gymysg ymhlith staff ar effeithiolrwydd ACLI.
- Soniwyd am ACLI 41 o weithiau gan staff pan ofynnwyd yn yr arolwg 'beth ddylai'r tair blaenoriaeth fod?'
- Cydnabuwyd bod effeithiolrwydd ACLI anibynnol ym maes Offthalmoleg yn broblem a bod angen ei adolygu'n gyson.
- Alergeddau latecs wedi cael eu cofnodi mewn nifer fach o ddiwyddiadau er gwaethaf cwestiynau am alergeddau yn yr holiadur sgrinio.

Mae proses sgrinio cleifion a chyn-asesu effeithiol ar waith.





Rhan 2: Mae rhai agweddau cadarnhaol iawn ar ddiwylliant diogelwch ac awydd o fewn theatrau i gymryd y camau nesaf i brif ffrydio'r defnydd o friffiadau a'r rhestr wirio



Mae agweddau ar arfer da yn null gweithredu'r Bwrdd Iechyd o annog y defnydd o friffiadau diogelwch a'r rhestr wirio diogelwch llawfeddygol:

- (Mae'r 5 Cam tuag at Lawdriniaeth Fwy Diogel yn cynnwys briff y tîm cyn llunio'r rhestr, tri cham rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) (yn Saesneg - Sign-in, Time-out, Sign-out) a sesiwn ôl-drafod ar ôl llunio'r rhestr).
- Mae defnydd y Bwrdd Iechyd o archwiliad cudd o restr wirio yn arfer da ac yn dangos ymrwymiad i weithredu'r pum cam yn llawn.
- Dull prosiect clir o gyflwyno rhestr wirio ddiwygiedig. Bydd hyn yn cynyddu manylion y briff cyn llunio'r rhestr ac yn lleihau'r manylion yn y rhestr wirio a ddefnyddir ar gyfer pob claf.
- Barn gadarnhaol ar gyflwyno briffiadau cyn llunio'r rhestr.
- Barn gadarnhaol wedi'i mynegi yn yr arolwg staff ynghylch rhestrau gwirio.

Gwaith dilynol ar theatrau

Sleid 11



Rhan 2: Mae rhai agweddau cadarnhaol iawn ar ddiwylliant diogelwch ac awydd o fewn theatrau i gymryd y camau nesaf i brif-ffrydio'r defnydd o friffiadau a'r rhestr wirio



Mae agweddau da iawn ar arfer da yn null gweithredu'r Bwrdd Iechyd o annog y defnydd o friffiadau diogelwch a'r rhestr wirio diogelwch llawfeddygol

Fodd bynnag:

- Anaml y cynhelir ôl-drafodaeth gan y tîm ar ôl llunio'r rhestr.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru ar gydymffurfiaeth o 100 y cant â rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd, ond mewn gwirionedd mae'r gyfradd cydymffurfio yn llai.
- Dengys archwiliadau cudd fod briffiadau cyn llunio'r rhestr yn cael eu cynnal mewn 63 y cant o achosion, 'Sign-in' mewn 94 y cant o achosion, 'Time-out' mewn 21 y cant o achosion ond 'Sign-out' mewn dim ond 9 y cant o achosion.


Gwaith dilynol ar theatrau

Sleid 12



[Arolwg staff: Diwylliant diogelwch]

Byddwn yn teimlo'n ddiogel pe bawn yn cael triniaeth yma fel claf.



Caiff diogelwch cleifion ei atgyfnerthu'n gyson fel y flaenoriaeth yn y theatr hon.





[Dyfyniadau gan staff: Rhestr wirio a briffiadau]

Mae angen inni wneud mwy i hyrwyddo'r rhestr wirio

Mae'n syndod pa mor aml y bydd angen egluro rhywbeth sy'n deillio o'r briff

Dangos ei fod yn cael effaith ac nad yw'n wastraff amser

Arferai fod yn anodd cael pawb ynghyd ond bellach mae llawfeddygon ac anesthetyddion yn cymryd rhan

Yn amlach na pheidio bydd rhyw ddarn o wybodaeth y bydd un rhan o'r tîm yn gwybod amdano ond na fydd y gweddill yn ymwybodol ohono

Mae'n gweithio'n dda

Mae rhai unigolion yn amharod i newid

Bob hyn a hyn bydd rhywbeth yn codi y gellid bod wedi ei godi yn ystod briff y tîm

Mae'r defnydd o'r rhestr wirio yn wael iawn o gymharu ag ysbytai eraill rwyf wedi gweithio ynddynt

Mae briffiadau wedi bod yn ymarfer gwych i ni

Gwaith dilynol ar theatrau

Sleid 14

[Arolwg staff: Rhestr wirio a briffiadau]

Mae staff yn cynnal rhestrau gwirio llawfeddygol cyn pob achos theatr.



Mae personél theatrau yn cael eu brifio bob amser cyn llawdriniaeth.



Mae ôl-drafodaeth yn dilyn sifft neu restr yn gyffredin yn y theatr llawdriniaethau hon.



[Barn staff ar sut i wella'r rhestr wirio/y defnydd o friffiadau]

Categori	Sawl gwaith y cafodd ei grybwyll
Hyfforddiant ac addysg	21
Annog pawb i gymryd rhan	21
Un person a enwir i arwain y broses	18
Sicrhau bod yn rhaid gwneud hyn cyn dechrau achos	12
Mae angen cynnal ôl-drafodaeth	11
Dim byd, maent eisoes yn effeithiol	9
Teilwra'r ffurflen i anghenion lleol	8
Gwneud amser i gynnal y rhestr wirio/briffiadau	8
Arweinyddiaeth a chefnogaeth gan uwch aelodau o staff	7
Cydymffurfio â'r archwiliad	6

Sleid 16

Rhan 2: Mae rhai agweddau cadarnhaol iawn ar ddiwylliant diogelwch ac awydd o fewn theatrau i gymryd y camau nesaf i brif ffrydio'r defnydd o friffiadau a'r rhestr wirio

Mae trefniadau ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau er bod lle i wella adborth a dadansoddi cyfraddau digwyddiadau.


- Dywedodd 79 y cant o'r staff fod cofnodi gwallau yn cael ei annog ac roedd barn gadarnhaol ar y cyfan ar y prosesau cofnodi.
- Caiff data digwyddiadau/themâu eu hystyried yn wythnosol gan reolwyr theatrau, yng nghyfarfodydd Band 7, y Grŵp Llywio Ansawdd, cyfarfodydd y gyfarwyddiaeth a chyfarfodydd Llywodraethu Gwasanaethau Acíwt.
- Mae'n ymddangos bod achosion o ddysgu o ddigwyddiadau yn digwydd i lawr i lefel Band 7 ond mae lle i ledaenu'r dysgu i staff islaw Band 7. Dywedodd ambell un nad yw unigolion yn cael adborth.
- Mae lle i ddefnyddio ystadegau mwy soffistigedig i ddadansoddi tueddiadau mewn digwyddiadau yn y theatr gan fod y dulliau presennol yn colli gwersi pwysig (gweler sleid 19).

Sleid 17




[Arolwg staff: digwyddiadau]

Anogir staff i gofnodi gwallau yn y theatrau llawdriniaethau hyn.



Defnyddir gwybodaeth a geir drwy adroddiadau digwyddiadau i wneud gofal cleifion yn fwy diogel yn theatrau llawdriniaethau'r ysbyty hwn.



Y cwestiwn hwn a gafodd y ganran uchaf o atebion 'Ddim yn gwybod'.

Rhan 2: Mae rhai agweddau cadarnhaol iawn ar ddiwylliant diogelwch ac awydd o fewn theatrau i gymryd y camau nesaf i brif ffrydio'r defnydd o friffiadau a'r rhestr wirio

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd rhai camau cadarnhaol i wella'r gwaith o fonitro ansawdd a diogelwch ac mae'r camau nesaf yn ymwneud ag asesu profiad y claf yn rheolaidd a dwyn ynghyd y gwahanol ffynonellau o wybodaeth.

- Ni chaiff profiad y claf llawfeddygol ei fesur yn rheolaidd er bod yr arolwg diweddar yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn ddatblygiad i'w groesawu.
- Mae ailddilysu meddygon yn galw am arolygu cleifion ond nid yw'r broses hon yn ddigon annibynnol ar y meddyg sy'n ceisio ailddilysiad.
- Newidiwyd Cyfarfodydd Busnes Clinigol i ganolbwyntio ar ansawdd a diogelwch yn ogystal â pherfformiad a chyllid.
- Mae Cylch Gorchwyl y Tîm Gwella Ansawdd Theatrau (TQIT) yn cynnwys canolbwyntio'n benodol ar ansawdd.
- Mae sawl ffynhonnell o wybodaeth am ansawdd ond mae angen eu dwyn ynghyd yn well a'u hystyried yn gyfannol.

Rhan 3: Roedd y 'defnydd terfynol' o theatrau yn gymharol isel yn 2001 ac nid oes fawr ddim wedi newid ers hynny


Mae'r Bwrdd lechyd wedi cymryd rhai camau gweithredu penodol mewn ymgais i wella'r defnydd ond erys perfformiad yn isel.

- Ymhlith y camau gweithredu a gymerwyd i wella'r defnydd mae'r canlynol:
 - Dadansoddiad mewnol o ddata/materion yn ymwneud â defnydd.
 - Gwaith gwella gyda'r Uned Gyflawni ac NLIAH.
 - Rhai achosion o gynnydd yn nifer y staff ar rai rhestrau prysur.
 - Cyflwyno rhai rhestrau drwy gydol y dydd.
 - Cydnabod problemau effeithlonrwydd ym maes Offthalmoleg a chamau gweithredu penodol a gymerwyd i fynd i'r afael â hwy.
 - Cyflwyno system bwyntiau ar gyfer llunio rhestrau cataractau.
- Mae 'Defnydd terfynol' (gweler y sleid nesaf) yn parhau i fod yn gymharol isel am amryw o resymau a nodir yn rhan 4.
- Mae angen i'r Bwrdd lechyd adeiladu ar y dadansoddiad hwn yn awr i ddeall effeithlonrwydd theatrau yn fwy cyfannol.



[Sut y gellir colli amser o restrau theatrau]

Mae'r sleid hon yn dangos sut y gellir colli amser o restrau theatrau o ganlyniad i ganslo rhestrau, rhestrau yn dechrau'n hwyr ac yn gorffen yn gynnar a bylchau rhwng cleifion.



[Diffiniadau o fesurau defnydd]

Rydym yn cydnabod mai dim ond un agwedd ar effeithlonrwydd theatrau yw'r defnydd o amser y theatr. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried ein dadansoddiad o ddefnydd ochr yn ochr â dadansoddiad ehangach o gynhyrchiant ac effeithlonrwydd.

- **Defnydd cynlluniedig o'r rhestr:** Mae'r dangosydd hwn yn canolbwyntio ar yr oriau a gollwyd o ganlyniad i sesiynau theatr a ganslwyd. [(Oriau cynlluniedig o sesiynau a ddefnyddiwyd/Oriau cynlluniedig o sesiynau a gynlluniwyd)*100].
- **Defnydd o amser rhedeg:** Mae hyn yn canolbwyntio ar restrau sy'n gor-redeg ac yn tan-redeg. [Amser rhedeg gwirioneddol o restrau/Oriau cynlluniedig o restrau)*100].
- **Defnydd o oriau llawdriniaeth:** Mae hyn yn canolbwyntio ar y bylchau rhwng cleifion. [(Oriau llawdriniaeth i gleifion/Oriau anestheteg a llawdriniaethau)*100].
- **Defnydd terfynol:** Mae'r dangosydd hwn yn rhoi argraff gyffredinol o gyfran yr oriau cynlluniedig gwreiddiol a ddefnyddiwyd ar gyfer llawdriniaethau. [(Oriau llawdriniaeth i gleifion/Cyfanswm yr oriau cynlluniedig)*100].



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rhan 3: Roedd y 'defnydd terfynol' o theatrau yn gymharol isel yn 2011 ac nid oes fawr ddim wedi newid ers hynny


- Mae'r defnydd terfynol wedi lleihau ychydig yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg (RGH) ac wedi gwella ychydig yn Ysbyty'r Tywysog Siarl (PCH).

Ystafelloedd Theatr	Defnydd cynlluniedig o restrau	Defnydd o amser rhedeg	Defnydd o oriau ar gyfer llawdriniaethau	Defnydd terfynol
RGH (2011)	88.9	90.8	88.2	71.2
RGH (2013)	89.5	88.3	89.6	70.8
PCH (2011)	75.9	93.5	94.7	67.2
PCH (2013)	85.8	89.1	91.7	70.1

[Ffynhonnell: Casglu data Swyddfa Archwilio Cymru. Cyfnod y sampl – misoedd Hydref a Thachwedd 2013, pan leddfodd y pwysau USC ychydig.]



Amrywiad rhwng arbenigeddau yn Ysbyty'r Tywysog Siarl




Arbenigedd	Defnydd cynlluniedig o'r rhestr	Defnydd o'r amser rhedeg	Defnydd o'r oriau ar gyfer llawdriniaethau	Defnydd Terfynol	
Cyfanswm		86%	89%	92%	70%
Llawdriniaeth Gyffredinol		95%	96%	94%	86%
Oftalmoleg		84%	81%	117%	80%
Gynaecoleg		88%	91%	93%	74%
Y Genau a'r Wyneb		93%	84%	88%	69%
ENT		84%	79%	92%	61%
Orthopedeg (dewisol)		73%	93%	89%	60%
Wroleg		101%	80%	70%	56%
Y Galon		63%	80%	80%	40%
Eraill		50%	73%	72%	27%
Llawdriniaeth Blastig		50%	45%	87%	20%

Sleid 24



Amrywiad rhwng arbenigeddau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Defnydd terfynol



	Defnydd o'r rhestr gynlluniedig	Defnydd o'r amser rhedeg	Defnydd o'r oriau ar gyfer llawdriniaethau	Defnydd terfynol
Cyfanswm	90%	88%	90%	71%
Y Genau a'r Wyneb	272%	55%	66%	98%
Offthalmoleg	87%	85%	111%	82%
Gynaecoleg	96%	89%	88%	75%
Orthopedeg (dewisol)	85%	93%	90%	71%
ENT	94%	88%	83%	69%
Llawdriniaeth Gyffredinol	80%	92%	92%	68%
Wroleg	94%	87%	81%	66%
Uroleg	94%	87%	81%	66%

Sleid 25

[Barn staff ar sut i wella'r defnydd]

Categori	Sawl gwaith y cafodd ei grybwyll
Cynnydd yn y lefelau staffio	81
Mwy o welyau ar gael	66
Mwy o ffocws/cyfleusterau ar gyfer achosion dydd a 23:59	44
Cynllunio rhestrau'n well	42
Asesiadau gwell cyn llawdriniaeth	41
Mwy o gyfarpar/cyfarpar gwell	26
Theatrau/rhestrau brys penodedig	22
Dulliau cyfathrebu gwell	21
Prosesau derbyn gwell	19

Rhan 4: Nid yw'r rhwystrau sy'n weddill wedi'u cyfyngu i theatrau yn unig. Maent yn ymwneud hefyd â rhannau amrywiol o lwybr llawfeddygol y claf

Mae'r sleidiau canlynol yn disgrifio'r rhwystrau mewn perthynas â'r canlynol:

- Rheoli perfformiad.
- Trefniadau amserlen theatrau.
- Llawdriniaeth arhosiad byr.
- Pwysau gofal heb ei drefnu.
- Derbyn ar ddiwrnod y llawdriniaeth (DOSA).
- Cyd-berchenogaeth o'r materion rhwng staff theatr, llawfeddygon ac anesthetyddion.
- Dulliau cyfathrebu ar draws amryw o grwpiau staff.

Rhan 4: Nid yw'r rhwystrau sy'n weddill wedi'u cyfyngu i theatrau yn unig. Maent yn ymwneud hefyd â rhannau amrywiol o lwybr llawfeddygol y claf

Er bod rhai camau cadarnhaol wedi'u cymryd i wella'r dull o reoli perfformiad, mae gan gyfarwyddwyr clinigol amheuan ynghylch data rhai theatrau ac nid yw'r wybodaeth yn cael ei defnyddio yn y ffordd orau bosibl i sicrhau gwelliant.

- Mae datblygu siartiau optimeiddio yn gam da. Ni chafodd hyn fawr ddim effaith hyd yma, ond mae argaeledd gwelyau wedi bwrw effeithlonrwydd i'r cysgod.
- Mae'r dangosfwrdd newydd o berfformiad theatrau yn ddatblygiad cadarnhaol. Mae ar gam cynnar o hyd ac nid yw'n cael ei ddefnyddio'n helaeth.
- Barn gadarnhaol ar y system theatrau ac mae'n gam cadarnhaol y caiff amserau cyflawni eu mesur ym mhob arbenigedd.
- Dywedodd Cyfarwyddwyr Clinigol a rheolwyr cyfarwyddiaethau wrthym nad yw'r data cywir ganddynt bob tro i ddeall/rheoli perfformiad unigol clinigwyr. Dywedodd rhai fod y data'n gwrth-ddweud yr hyn y gwyddant sy'n wir.



[Dyfyniadau gan staff: Data]

Dydyn ni ddim yn cael gwybodaeth am glinigwyr unigol

Mae'r data tua mis yn hwyr

Mae'n anodd herio llawfeddygon gan eu bod yn difrio'r data

Mae'r dangosfwrdd yn ddam da iawn o waith y gallem ei rannu ar sail Cymru gyfan

Dydw i ddim yn ymwybodol o'm heffeithlonrwydd fy hun. Hoffwn wybod

Data ar ddechrau'n hwyr – rydym yn mewnbynnu hyn ond ble mae'n mynd?

Mae gen i bryderon ynghylch y metrigau a'u cywirdeb

Mae'r data a ddarperir i gyfarwyddiaethau yn canolbwyntio gormod ar y llawfeddygon ac nid ar y materion sy'n ymwneud â'r theatr

Rhaid i mi wneud arfarniadau heb unrhyw syniad wir o ba mor gynhyrchiol yw pobl

Mae siartiau optimeiddio yn dda

Sleid 29

Rhan 4: Nid yw'r rhwystrau sy'n weddill wedi'u cyfyngu i theatrau yn unig. Maent yn ymwneud hefyd â rhannau amrywiol o lwybr llawfeddygol y claf

Mae trefniadau amserlennu theatrau yn peri rhai risgiau i ddiogelwch cleifion ac mae cydymffurfiaeth wael â'r rheol bod yn rhaid i lawfeddygon roi chwe wythnos o rybudd o wyliau yn peri rhai risgiau i ddiogelwch cleifion.

- Mae cynllunio rhestrau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg wedi newid i gyfateb i'r broses yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ond mae'r newid wedi achosi problemau ac ni chaiff ei gefnogi gan bawb.
- Dywedodd sawl aelod o staff theatrau wrthym eu bod am gael mwy o fewnbwn i'r broses o lunio rhestrau a gwella dulliau cyfathrebu â'r rhai sy'n llunio'r rhestrau. Codwyd rhai pryderon ynghylch rhestrau rhy uchelgeisiol a gwybodaeth anghywir yn cael ei rhoi ar y system.
- Dengys adroddiad ar ddiogelwch cleifion saith achos y bu ond y dim iddynt ddigwydd o ran llawdriniaethau safle cywir (mis Ionawr i fis Tachwedd 2013).
- Awgryma ymateb y Bwrdd Iechyd mai dim ond 14 allan o 45 o feddygon ymgynghorol sy'n bodloni'r rheol o roi chwe wythnos o rybudd o wyliau. Rhwng mis Hydref a mis Tachwedd dim ond pum achos a gafodd eu canslo oherwydd gwyliau llawfeddygon (i gyd yn yr adran Offthalmoleg yn Ysbyty'r Tywysog Siarl) a dim achosion o ganslo oherwydd gwyliau anesthetyddion.

Sleid 30

[Canolbwyntio ar gynllunio rhestrau]


Dywedodd 49 y cant o staff fod rhestrau'n cael eu cynllunio'n effeithiol ond dywedodd lleiafrif sylweddol nad yw hyn yn wir (gweler y graff).

Soniwyd am ddulliau gwell o gynllunio rhestrau 42 o weithiau yn y cwestiwn testun rhydd ynghylch y cyfle i wella effeithlonrwydd.

Mae angen cael cymorth clercaidd/rheoli priodol wrth gynllunio rhestrau'

Dylai'r Bwrdd Iechyd 'sgrinio rhestrau theatrau er mwyn osgoi achosion o ganslo ac osgoi sefyllfa lle nad oes digon o theatrau ar gael i'r cleifion'

Cynllunnir y rhan fwyaf o restrau theatrau yn dda



Sleid 31

Rhan 4: Nid yw'r rhwystrau anodd sy'n weddill wedi'u cyfngu i theatrau yn unig. Maent yn ymwneud hefyd â rhannau amrywiol o lwybr llawfeddygol y claf


Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd sawl cam i hyrwyddo llawdriniaeth arhosiad byr ac er bod y gyfradd achosion dydd (DC) wedi gwella yn ystod 2013 erys yn gymharol isel.

- Enwyd dau feddyg ymgynghorol i arwain llawdriniaeth ddydd ym maes anestheteg ond nid oes hyrwyddwr clinigol ffurfiol ar gyfer llawdriniaeth ddydd.
- Mae dadansoddiad trylwyr gan y Bwrdd Iechyd wedi tynnu sylw at yr angen am fwy o welyau llawdriniaeth arhosiad byr.
- Wrthi'n cynyddu nifer y troliâu 23:59 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.
- Wedi cyflwyno ward 23:59 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a ward 23:59/achosion dydd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg (ond efallai y bydd yn gorfod derbyn allgleifion).

Rhan 4: Nid yw'r rhwystrau anodd sy'n weddill wedi'u cyfyngu i theatrau yn unig. Maent yn ymwneud hefyd â rhannau amrywiol o lwybr llawfeddygol y claf

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd sawl cam i hyrwyddo llawdriniaeth arhosiad byr ac er i'r gyfradd achosion dydd (DC) wella yn ystod 2013 erys yn gymharol isel.

- Gwnaeth y gyfradd DC wella yn 2013 ond erys yn gymharol isel o gymharu â Chymru (ond cydnabyddwn fod hyd yr arhosiad cyfartalog hefyd yn gymharol isel).
- Arolwg staff: soniwyd 44 o weithiau am lawdriniaeth arhosiad byr (angen gwella'r defnydd o gyfleusterau penodedig neu eu cyflwyno) i wella effeithlonrwydd.
- Soniwyd yn aml fod y diffyg cyfleuster penodedig yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn rhwystr allweddol.



Gwaith dilynol ar theatrau

Rhan 4: Nid yw'r rhwystrau sy'n weddill wedi'u cyfyngu i theatrau yn unig. Maent yn ymwneud hefyd â rhannau amrywiol o lwybr llawfeddygol y claf

Mae pwysau gofal heb ei drefnu wedi bod yn rhwystr enfawr i welliant ac yn golygu nad yw staff yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd oherwydd diffyg cymhelliant.

- Mae prinder gwelyau wedi peri i sawl rhestr gael ei chanslo ac i sawl theatr fod yn segur.
- Arolwg staff: soniwyd am argaeledd gwelyau 66 o weithiau mewn perthynas â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella effeithlonrwydd.
- Mae cleifion llawfeddygol ym mhob rhan o'r ysbyty ac mae oedi'n digwydd mewn perthynas â'r rhestrau am na ellir dod o hyd i gleifion.
- Mae'r pwysau wedi bod yn ddigynsail ac yn golygu nad oes gan y staff unrhyw gymhelliant, felly mae agweddau eraill ar aneffeithlonrwydd yn ymddangos yn rhai sylweddol.
- Lleddfwyd pwysau gofal heb ei drefnu yn ddiweddar, oherwydd materion tymhorol ac ymagwedd fwy rhagweithiol tuag at reoli gwelyau, yn cynnwys uwch nyrsys theatr. Mae'r nyrsys hyn wedi cael effaith gadarnhaol, er bod hyn yn creu risg am fod eu rôl rheoli gwelyau yn golygu eu bod yn treulio llai o amser mewn theatrau.



Sleid 34

Rhan 4: Nid yw'r rhwystrau sy'n weddill wedi'u cyfyngu i theatrau yn unig. Maent yn ymwneud hefyd â rhannau amrywiol o lwybr llawfeddygol y claf

Y perfformiad o ran derbyn cleifion ar ddiwrnod y llawdriniaeth (DOSA) yw'r isaf yng Nghymru ac er bod y nod o gyflwyno lolfeydd derbyn yn weithred dda ei bwriad, mae problemau wedi codi o ran profiad y claf.

- Barn gymysg gan staff ar DOSA.
- Y gyfradd DOSA yw'r isaf yng Nghymru.
- Roedd cyflwyno Lofa Asesu Dewisol Llawfeddygol (SEAL) yn weithred dda ei bwriad, ond mae problemau wedi codi o ran profiad y claf (gweler y sleid nesaf).

Mae derbyn cleifion ar ddiwrnod y llawdriniaeth yn gweithio'n dda



[Dyfyniadau gan staff a chleifion: Derbyn ar ddiwrnod y llawdriniaeth]



Rhan 4: Nid yw'r rhwystrau sy'n weddill wedi eu cyfyngu i theatrau yn unig. Maent yn ymwneud hefyd â rhannau amrywiol o lwybr llawfeddygol y claf



Mae cyd-berchenogaeth effeithiol o'r problemau gan staff theatr, llawfeddygon ac anesthetyddion yn hanfodol i sicrhau gwelliannau pellach.

- Mae TQIT yn gam cadarnhaol ar gyfer cydweithio rhwng theatrau a'r cyfarwyddiaethau llawfeddygol.
- Cynhelir amrywiaeth o gyfarfodydd i godi proffil materion theatr a llywio newid.
- Mae TQIT yn newydd, ac nid yw pawb yn ymwybodol ohono a cheir rhai pryderon na fydd y fforwm hwn yn ddigon i sicrhau y gweithredir ym mhob cyfarwyddiaeth llawfeddygol.
- Petrusodd grŵp blaenorol y defnyddwyr theatr pan waethygodd presenoldeb y cyfarwyddiaethau llawfeddygol. Mae hyn yn risg ar gyfer y dyfodol.

Rhan 4: Nid yw'r rhwystrau sy'n weddill wedi'u cyfyngu i theatrau yn unig. Maent yn ymwneud hefyd â rhannau amrywiol o lwybr llawfeddygol y claf


Mae cyfle pellach i wella'r dulliau cyfathrebu rhwng grwpiau amrywiol o staff.

- Dywedodd staff fod lle i wella dulliau cyfathrebu rhwng:
 - rheolwyr a staff gweithredol;
 - wardiau a theatrau;
 - y rhai sy'n llunio rhestrau theatrau a staff theatrau;
 - theatrau a chyfarwyddiaethau llawfeddygol; ac
 - aelodau o'r un tîm llawfeddygol pan fydd y llawdriniaeth yn mynd rhagddi.
- Roedd gan staff farn gymysg ynghylch effeithiolrwydd y dulliau cyfathrebu (gweler y sleid nesaf).
- Mae'r dulliau cyfathrebu i lawr i Fand 7 yn ymddangos yn effeithiol ond nid oes unrhyw gyfarfodydd tîm islaw Band 7.
- Mae cofnodion cyfarfodydd ar gael i bob aelod o staff ond nid yw hyn yn ymddangos yn ddigonol i sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys.
- Anaml y cynhelir ôl-drafodaeth. Mae'n bwysig bod y staff yn cyfarfod ac yn dysgu fel tîm.




[Canolbwyntio ar gyfathrebu, gwaith tîm a morâl]


Rwy'n teimlo fy mod yn cael yr holl wybodaeth am faterion theatrau yn yr ysbyty hwn




Mae morâl yn uchel yn y theatrau llawdriniaethau



Os oes angen, rwy'n teimlo fy mod yn gallu dweud fy mod yn anghytuno ag uwch aelodau o'r tîm



Ar y cyfan, mae'r staff yn y theatr hon yn gweithio'n dda fel rhan o dîm (h.y. pob aelod o staff ac nid staff theatr yn unig ond staff meddygol hefyd)



Argymhellion

1. Pum Cam tuag at Lawdriniaeth Fwy Diogel:
 - a. Parhau i gyflwyno'r rhestr wirio lawfeddygol newydd ac ailgynnal yr archwiliad cudd ar y ddau safle ymhen 12 mis.
 - b. Gwneud penderfyniad ar bwysigrwydd briffiadau ar ôl llunio'r rhestr. Os bydd y Bwrdd Iechyd yn tybio eu bod yn bwysig rhaid iddynt gael eu hyrwyddo, yn enwedig gan y cyfarwyddwyr clinigol a ddylai fod yn arwain drwy esiampl.
 - c. Dechreu cofnodi cydymffurfiaeth â'r pum cam ochr yn ochr â metrigau effeithlonrwydd/cynhyrchiant er mwyn sicrhau adolygiad mwy cyfannol o berfformiad, ansawdd a diogelwch.
2. Profiad y claf:
 - a. Monitro profiad y claf llawfeddygol o leiaf bob chwe mis.
 - b. Archwilio'r broses o ddilysu meddyg er mwyn asesu a yw'r arolygon cleifion yn ddigon annibynnol ar y meddyg dan sylw.

3. Dadansoddi digwyddiadau:
 - a. Cael help ac adnoddau gan lechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn gwella dadansoddiad tueddiadau o ddigwyddiadau mewn theatrau a defnyddio siartiau SPC.
 - b. Dadansoddi'r rhesymau dros y cynnydd sylweddol mewn digwyddiadau yn ystod 2012.
 - c. Pennu amcan o gynyddu nifer y digwyddiadau a gofnodir a monitro'r gymhareb o ddigwyddiadau niwed isel i bob digwyddiad o leiaf bob chwe mis.
4. Cynllunio rhestrau: Adolygu effeithiolrwydd a materion diogelwch sy'n gysylltiedig â chynllunio rhestrau, yn enwedig yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Newid y broses er mwyn sicrhau y caiff staff theatrau eu cynnwys yn llawn wrth sicrhau ansawdd rhestrau.
5. Gwyliau blynyddol: Gorfodi cydymffurfiaeth â'r rheol chwe wythnos i feddygon ymgynghorol. Monitro cydymffurfiaeth o leiaf bob chwe mis.

6. Prosesau cyn llawdriniaeth:
 - a. Cyflawni prosiect i wella'r dull o reoli perfformiad mewn perthynas ag asesiad cyn llawdriniaeth. Mae angen i'r Bwrdd lechyd wybod mwy am ei effeithiolrwydd a'i effaith ar achosion o ganslo llawdriniaethau.
 - b. Dadansoddi fesul arbenigedd/llawfeddyg, lle mae cyfraddau DOSA yn isel. Gweithio gyda'r arbenigeddau/llawfeddygon hyn i ddeall/goresgyn y rhwystrau i gynyddu cyfraddau DOSA.
 - c. Mynd i'r afael â'r materion ynghylch profiad y claf yn unedau SEAL a ddatgelwyd yn yr arolwg cleifion diweddar ac archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru.
7. Llawdriniaeth arhosiad byr:
 - a. Enwebu llawfeddygon yn ffurfiol ar bob safle ysbyty i weithredu fel hyrwyddwyr ar gyfer llawdriniaeth arhosiad byr.
 - b. Dylai'r hyrwyddwyr hyn arwain prosiect gyda'r nod o gynyddu cyfraddau llawdriniaeth arhosiad byr o fewn y 12 mis nesaf.

8. Hybu effeithlonrwydd drwy greu mwy o ymdeimlad o gyd-berchenogaeth:
 - a. Ailgyflwyno siartiau optimeiddio i adnewyddu'r ffocws ar effeithlonrwydd (heb aberthu ansawdd na diogelwch).
 - b. Dylai un o'r cyfarwyddwyr clinigol arwain prosiect i gynyddu'r ymwybyddiaeth a'r defnydd o ddangosfwrdd perfformiad theatrau. Dylai'r prosiect geisio deall a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy'n ymwneud â chlinigwyr nad ydynt yn perchenogi'r data effeithlonrwydd ar lefel clinigwyr.
 - c. Rhannu'r dysgu gan gyfarwyddwyr clinigol sy'n adolygu data theatrau cymheiriaid bob blwyddyn ac sy'n arsylwi ar berfformiad mewn arbenigeddau gwahanol. Cynnwys hyn wrth gynllunio swyddi, aiddilysu ac arfarnu.
 - d. Hysbysu staff theatrau drwy gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd Band 7 a chrynhoi'r priif faterion mewn poster/taflenni neu negeseuon e-bost.
9. Ymhen chwe mis, asesu a yw rôl rheoli gwelyau uwch nyrsys theatrau yn cael effaith negyddol ar eu rôl yn y theatr.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk